

Diweddariadau i Ganllawiau Technegol yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar labelu alergenau bwyd a gofynion gwybodaeth o dan Reoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr Undeb Ewropeaidd (UE) Rhif 1169/2011

Dyddiad cyhoeddi	22 Ionawr 2020	Ymatebion erbyn	6 Mawrth 2020
-------------------------	----------------	------------------------	---------------

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

- Busnesau Bwyd sy'n cynnig bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) (Gweler Atodiad B)
- Cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant bwyd
- Awdurdodau gorfodi
- Unrhyw sefydliad neu berson arall sydd eisiau gwybod mwy am newidiadau sydd ar y gweill i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd PPDS.

Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

Gosodwyd Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019 (Offeryn Statudol 2019 Rhif 1218) gerbron y Senedd ar 5 Medi 2019. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2021 a byddant yn newid y ffordd y mae gofyn i fusnesau bwyd yn Lloegr ddarparu gwybodaeth am alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS). Mae deddfwriaeth gyfwerth ar wahân ar y gweill yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Pwnc yr ymgynghoriad hwn yw diweddariadau arfaethedig i Ganllawiau Technegol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ar labelu alergenau bwyd a gofynion gwybodaeth o dan Reoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE Rhif 1169/2011 ("Canllawiau Technegol yr ASB"). Mae'r diweddariadau hyn yn bennaf i adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol newydd hyn, ond rydym ni hefyd yn achub ar y cyfle hwn i gynnig rhai diweddariadau technegol/drafftio. Bydd y diweddariadau i'r canllawiau yn berthnasol yn Lloegr a disgwylir iddynt fod yn berthnasol yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Byddai'r ASB felly'n croesawu barn a sylwadau rhanddeiliaid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Ceisio barn a sylwadau rhanddeiliaid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon ar ddiweddariadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol.

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Enw: Duncan Harris

Tîm: Tîm Datblygu Rheoleiddio a Chefnogaeth Broffesiynol, y Gyfarwyddiaeth Polisi Bwyd

Asiantaeth Safonau Bwyd

Ffôn: 020 7276 8334

Cyfeiriad post:

Llawr 6, Clive House,
70 Petty France,
Westminster,
Llundain, SW1H 9EX.

E-bost: duncan.harris@food.gov.uk

Diweddariadau i Ganllawiau Technegol yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar labelu alergenau bwyd a gofynion gwybodaeth o dan Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr Undeb Ewropeaidd (UE) Rhif 1169/2011

Manylion

Cefndir

Mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am alergenau bwyd wedi'i gynnwys i raddau helaeth yn y Rheoliad Ewropeaidd ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (UE) Rhif 1169/2011 (FIC yr UE) a fydd yn parhau i fod yn berthnasol yn y DU fel "Cyfraith yr UE a ddargedwir" ar ôl Ymadael â'r UE. Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (FIR) a rheoliadau cyfatebol yng Nghymru, yng Ngogledd Iwerddon ac yn yr Alban yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi FIC yr UE yn y DU.

Gofynion cyfredol

Mae FIC yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd sicrhau bod gwybodaeth orfodol am alergenau bwyd sy'n ymwneud â'r 14 o sylweddau a chynhyrchion sy'n achosi alergeddau neu anoddefiadau a restrir yn Atodiad II yn gywir, ar gael ac yn hygyrch i'r defnyddiwr. Mae FIC yr UE yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau wahaniaethu rhwng bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw o ran sut y dylid darparu gwybodaeth orfodol am alergenau i ddefnyddwyr.

Mae FIC yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i fwyd sy'n cael ei becynnu ymlaen llaw (er enghraifft pryd parod a werthir mewn archfarchnad) gynnwys rhestr gynhwysion sy'n pwysleisio unrhyw un o'r 14 alergen sy'n bresennol. Ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw, mae'r gofynion gwybodaeth am fwyd yn wahanol. Rhaid i unrhyw fwyd nad yw'n dod o fewn diffiniad y FIC o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw fod yn fwyd heb ei becynnu ymlaen llaw. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: fwyd heb ei becynnu fel ffrwythau a llysiau rhydd, bwyd wedi'i becynnu ar y safle y mae'n cael ei werthu ar gais y defnyddiwr a bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS).

Y Ddeddfwriaeth Newydd

Gosodwyd Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019 gerbron Senedd San Steffan ar 5 Medi 2019. Byddant yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd domestig 2014 ac yn ei gwneud yn ofynnol, o 1 Hydref 2021, i fwyd PPDS gynnwys enw'r bwyd ar ei ddeunydd pecynnu (neu label ynghlwm wrth ei ddeunydd pecynnu) a rhestr o gynhwysion gydag unrhyw un o'r 14 alergen sydd wedi'u rhestru yn FIC yr UE wedi'i bwysleisio ar y rhestr honno. Nid yw'r newidiadau yn effeithio ar y gofynion mewn perthynas â bwyd arall heb ei becynnu. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cefnogi gan Weinidogion Cymru, Lloegr a'r Alban. Mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, cymeradwyodd Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Iechyd, yn absenoldeb Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, y newidiadau hyn. Mae Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn gweithio tuag at gyflwyno deddfwriaeth debyg o fewn yr un amserlen gyffredinol.

Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llawn i'w werthu'n uniongyrchol

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn berthnasol i fwyd PPDS yn unig. Mae p'un a yw bwyd yn PPDS yn dibynnu ar ble a phryd y caiff ei becynnu mewn perthynas â'r pwynt y caiff ei gynnis i'w werthu.

Nodwyd safbwynt y Llywodraeth ar beth yw PPDS yn ei Hymgyngoriad yn 2019 ar ddiwygio darpariaethau gwybodaeth am alergenau sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth gwybodaeth am fwyd domestig ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol:

<https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/diwygio-darpariaethau-gwybodaeth-am-alergenau-mewn-ddeddfwriaeth-gwybodaeth-am-fwyd-ddomestig-ar-gyfer-bwyd-wedii-becynnu-ymlaen>

Mae dull sy'n seiliedig ar safbwynt y Llywodraeth y gellir ei ddefnyddio i helpu i bennu a yw bwyd yn PPDS ai peidio ar gael yn Atodiad B y ddogfen ymgynghori hon. Mae'r dull hwn yn nodi tri maen prawf y mae'n rhaid bodloni pob un ohonynt er mwyn i fwyd fod yn PPDS.

Diweddariadau Arfaethedig i'r Canllawiau Technegol

Mae'r Canllawiau Technegol yn ymdrin â chymhwyso darpariaethau alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw a bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Nid yw'r canllawiau yn ymdrin â gofynion labelu eraill (fel materion labelu cyffredinol eraill (er enghraifft cyfnod lleiaf y bydd bwyd yn para, gwlad tarddiad, briwrig, meintiau, ychwanegion, maeth ac ati)

Rydym ni'n ceisio barn a sylwadau rhanddeiliaid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon ar y diweddariadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol. Mae'r diweddariadau hyn yn bennaf i adlewyrchu gofynion Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019 a'r ddeddfwriaeth a ragwelir yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Rydym ni hefyd yn achub ar y cyfle hwn i ddod â'r Canllawiau Technegol yn unol â fformat canllawiau diweddaraf yr ASB ac i gynnis rhai diweddariadau technegol/drafftio (er enghraifft, i ddiweddarau/dileu dolenni gwe, gwella eglurder, diweddarau cysylltiadau'r ASB ac ati). Rydym ni hefyd yn croesawu barn rhanddeiliaid ar p'un a ddylid cynnwys y dull a nodir yn Atodiad B yn y Canllawiau Technegol hefyd.

Amlygir y diweddariadau arfaethedig mewn melyn yn y Canllawiau Technegol drafft a chânt eu crynhoi yn y tabl yn Atodiad C.

Effaith

Rydym ni'n rhagweld mai'r unig effaith a fydd yn codi o'r diweddariadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol fydd costau ymgyswrtio cychwynnol i fusnesau a'r llywodraeth (awdurdodau lleol).

Mae'r costau ymgyfarwyddo y rhagwelir yn sgil y ddeddfwriaeth newydd wedi'u hasesu ac maent ar gael yn yr Asesiad Effaith terfynol a gyhoeddwyd gan Defra ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sydd i'w gweld drwy:

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2019/1218/impacts>

Costau Ymgyfarwyddo i Fusnesau

Nid ydym ni'n disgwyl y bydd gofyn i fusnesau ail-ymgyfarwyddo â rhannau cyfredol y canllawiau gan y dylid integreiddio unrhyw gamau y maent yn teimlo sy'n angenrheidiol o ganlyniad i ddarllen y canllawiau yn eu systemau rheoli diogelwch bwyd y mae'n ofynnol iddynt eu cael ar waith. Felly byddai unrhyw ail-ymgyfarwyddo yn benderfyniad cwbl fasnachol gan y busnes.

Fodd bynnag, rhagwelir y bydd busnesau yn ymgyfarwyddo â'r rhannau o'r Canllawiau Technegol diwygiedig sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd, sef Rhan 3 yn bennaf.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) wedi tybio, ar gyfer busnesau bach a chanolig, y byddai'n cymryd un aelod o staff un diwrnod gwaith (7.4 awr) i ymgyfarwyddo â deddfwriaeth newydd. Ar gyfer busnesau canolig a mawr, maent wedi tybio y bydd yn cymryd 1.5 diwrnod gwaith (11.1 awr) i un aelod o staff ddarllen ac ymgyfarwyddo â deddfwriaeth newydd. Yn ogystal, maent wedi tybio y bydd cost ymgyfarwyddo o awr ychwanegol (fesul safle) i adlewyrchu'r angen i ledaenu unrhyw ddealltwriaeth/gwybodaeth newydd i aelodau eraill o staff.

Yn unol â chanllawiau Effaith Busnes (BIT)¹, rydym ni'n cymryd yn ganiataol bod yr amser hwn yn cyfleu'n ddigonol yr amser sydd ei angen ar fusnesau i ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd a'r cyfrifoldebau cysylltiedig, gan gynnwys ymgyfarwyddo â'r rhannau o'r Canllawiau Technegol diwygiedig sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Gall y newidiadau arfaethedig hyn leihau'r costau ymgyfarwyddo disgwylidig fel y tybir yn yr Asesiad Effaith terfynol, a hynny gan mai diben y newidiadau hyn yw i helpu busnesau ddeall y ddeddfwriaeth newydd, a chydymffurfio â hi.

Costau Ymgyfarwyddo i'r Llywodraeth (Awdurdodau Lleol)

Yn yr un modd â busnesau, nid ydym ni'n disgwyl i awdurdodau lleol ail-ymgyfarwyddo â rhannau cyfredol y canllawiau gan y dylai unrhyw gamau y maen nhw'n teimlo sydd eu hangen ar ôl darllen y canllawiau fod yn rhan o'u harferion arferol.

Mae Defra wedi amlinellu'r costau ymgyfarwyddo a ragwelir yn sgil y ddeddfwriaeth newydd yn yr Asesiad Effaith terfynol. Maent wedi tybio y bydd pob Swyddog Safonau Masnach a Swyddog lechyd yr Amgylchedd yn cymryd pum diwrnod gwaith (37 awr) i ddarllen ac ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd. Yn ogystal â hyn, bydd diwrnod gwaith ychwanegol (7.4 awr) i bob awdurdod lleol er mwyn i

1

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/609201/business-impact-target-guidance-appraisal.pdf (Adran 4.1)

Swyddogion Safonau Masnach a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd gytuno ar sut i fwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth newydd. Efallai y bydd y newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd yn lleihau'r costau ymgyfarwyddo disgwylidig i awdurdodau lleol fel y tybir yn yr Asesiad Effaith terfynol, gan mai pwrpas y newidiadau yw ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol ddeall, ac felly gorfodi, y ddeddfwriaeth newydd.

Eich safbwyntiau chi

Gofynnir am farn a sylw rhanddeiliaid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon ar y diweddariadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol.

Mae gofyn i ymatebion ddod i law erbyn diwedd dydd Gwener 6 Mawrth 2020.

Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw rhanddeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Atodiad A

Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartion eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol h.y. ymgynghoriad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy gytundebau fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partion fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy www.ico.org.uk, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: InformationManagement@food.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi².

² www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Atodiad B

Beth yw bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (bwyd PPDS)?

O 1 Hydref 2021, bydd angen i fwyd PPDS arddangos, ar ei ddeunydd pecynnu neu label sydd ynghlwm ag ef, enw'r bwyd a rhestr o gynhwysion sy'n pwysleisio'r 14 alergen y mae'n rhaid eu pwysleisio yn ôl y gyfraith. Dim ond ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt. Nid yw'r newidiadau yn effeithio ar gynhyrchion a archebir dros y ffôn neu ar-lein.

Er mwyn i fwyd fod yn PPDS, rhaid iddo fodloni pob un o'r tri maen prawf canlynol:

1. A yw'r bwyd yn cael ei gyflwyno i'r defnyddiwr mewn deunydd pecynnu*?

↓ Ydy

Nac ydy → bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw yw hwn

Mae'r bwyd wedi'i "becynnu"

2. A yw'n cael ei becynnu cyn i'r defnyddiwr ei ddewis neu ei archebu?

↓ Ydy

Nac ydy → bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw yw hwn

Mae'n fwyd "wedi'i becynnu ymlaen llaw"

3. A yw'n cael ei becynnu yn yr un lle** ac y mae'n cael ei werthu?

↓ Ydy

Nac ydy → bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw yw hwn

Mae'r bwyd wedi'i "becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol"

Os mai "Ydy" yw'r atebion i'r tri chwestiwn uchod, mae'n fwyd PPDS.

Nodiadau

* Un eitem (y bwyd a'i ddeunydd pecynnu) wedi'i gyflwyno i'r defnyddiwr. Mae'r bwyd wedi'i amgáu'n llwyr neu'n rhannol ac ni ellir ei addasu heb agor neu newid y deunydd pecynnu. Mae bwyd mewn deunydd pecynnu o'r fath sy'n cael ei werthu i fusnesau eraill yn fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw ac mae'n rhaid labelu unrhyw alergenau sydd ynddo. (Gweler Erthygl 2(2)(e) o'r Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr Rhif 1169/2011)

** Bwyd (a) wedi'i becynnu gan yr un busnes bwyd ar yr un safle ag y mae'n cael ei werthu neu (b) ei werthu o safle dros dro neu symudol (fel tryc bwyd neu standin farchnad) gan yr un busnes bwyd a'i becynnodd.

Atodiad C

Crynodeb o'r diweddariadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol

Adran	Rhif(au) Paragraff	Disgrifiad o'r Newid	Math o Newid
Dogfen gyflawn	Ddim yn berthnasol	Mae'r Canllawiau Technegol wedi'u diweddarau drwyddi draw er mwyn sicrhau eu bod yn unol â fformat canllawiau diweddaraf yr ASB. Mae'r holl gyfeiriadau at yr Alban wedi'u dileu trwy'r ddogfen gyfan gan mai Safonau Bwyd yr Alban yw corff bwyd y sector cyhoeddus yn yr Alban erbyn hyn.	Fformat
Hanes diwygio	Ddim yn berthnasol	Wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r diwygiadau arfaethedig i'r Canllawiau Technegol.	Rheoli Dogfennau
Cynnwys	Ddim yn berthnasol	Wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu diweddariadau i'r Canllawiau Technegol; Rhan 3 newydd, rhifau tudalennau newydd ac ati.	Drafftio
Cyflwyniad	1 (1-3 yn y drafft)	Paragraffau 1 a 2 newydd wedi'u hychwanegu er mwyn rhoi cefndir ar FIC yr UE ac adlewyrchu'r newidiadau yng ngofynion y ddeddfwriaeth newydd.	I adlewyrchu gofynion deddfwriaeth newydd ar labelu alergenau* Gwelliannau drafftio
	3 (5 yn y drafft)	Geiriad wedi'i ddiwygio i wella eglurder ar y gofynion ar gyfer datganiadau alergen rhagofalus.	
Cynulleidfa darged	5 (7 yn y drafft)	Wedi'i ddiwygio i gynnwys gwybodaeth am y rhai na fydd efallai'n gorfod cofrestru fel busnes bwyd o baragraffau 26 a 75 gan gynnwys y ddolen we i ganllawiau perthnasol yr ASB yn y maes hwn.	Gwelliannau drafftio
Diben y canllawiau	6 (8 yn y drafft)	Wedi'i diweddarau i adlewyrchu y bydd y ddeddfwriaeth newydd ar labelu alergenau sy'n ymwneud â Lloegr yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014.	I adlewyrchu gofynion deddfwriaeth newydd ar labelu alergenau*
Statws cyfreithiol y canllawiau	7-9 (9 -11 mewn drafft)	Wedi'i ddiweddarau i alinio â fformat canllawiau diweddaraf yr ASB a nodi bod 'Arfer Gorau' yn ymddangos mewn blychau cysgodol.	Fformat
Cefndir cyffredinol	10-13	Paragraff 11 (12 yn y drafft) wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r	Gwelliannau drafftio

Adran	Rhif(au) Paragraff	Disgrifiad o'r Newid	Math o Newid
ar alergenau	(12 - 14 yn y drafft)	amcangyfrifon diweddaraf o ddinasyddion y DU sydd ag alergeddau bwyd ac sydd â chlefyd seliag. Paragraff 13 (14 bellach) wedi'i ddiwygio i gael gwared ar gyfeiriadau hanesyddol (cyn FIC yr UE).	
Prif newidiadau o ran labelu alergenau	14-16 (15–18 yn y drafft) 18	Wedi'i ddiweddarau i roi esboniad o'r newidiadau a ddaeth (yn Lloegr) yn sgil Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019. Paragraff wedi'i ddileu i alinio'n well â gofynion newydd	I adlewyrchu gofynion deddfwriaeth newydd ar labelu alergenau*
Rhwymedigaethau Gorfodol	19 (20 yn y drafft)	Geiriad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu deddfwriaeth newydd. Brawddeg wedi'i hychwanegu i wella eglurder.	I adlewyrchu gofynion deddfwriaeth newydd ar labelu alergenau/Gwelliannau Drafftio
Rhan 1: Canllawiau i fusnesau sy'n darparu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw	27 (29 yn y drafft) 31 (33 yn y drafft) 34 (36 yn y drafft) 36 (38 yn y drafft) 39 (41 yn y drafft) 40 (42 yn y drafft) 41 (43 yn y drafft) 43 (45 yn y drafft)	Wedi dileu dolen i dudalen a oedd wedi torri. Wedi'i ddiweddarau i gyfeirio at Reoliad Gweithredu 828/2014 cyfredol y Comisiwn a darparu enghraifft. Cyfeiriadau rhif tudalen wedi'u diweddarau. “ “ “ Cywiro teitl deddfwriaeth yr UE. Geiriad wedi'i ddiwygio i wella eglurder. Cyfeirnod rhif tudalen wedi'i ddiweddarau. Paragraff 48 wedi'i ddileu gan fod yr wybodaeth wedi'i dyblygu ym Mharagraff 49 (50 yn y drafft). Geiriad wedi'i ddiwygio i wella eglurder. “ “ “ “	Drafftio/Gwelliannau Drafftio

Adran	Rhif(au) Paragraff	Disgrifiad o'r Newid	Math o Newid
	44 (46 yn y drafft) 48 49 (50 yn y drafft), 56 (56 yn y drafft), 61 (61 yn y drafft), 67 (67 yn y drafft) 68 (68 yn y drafft) 70 (70 yn y drafft) 71 72 (71 yn y drafft)	“ Paragraff wedi'i ddileu i alinio'n well â FIC yr UE. Geiriad wedi'i ddiwygio i wella eglurder. Dolen i dudalen we'r ASB wedi'i dileu a'i disodli â dolen we i ganllawiau 'Food Drink Europe' ar labelu alergenau rhagofalus.	
Rhan 2	Rhan 2 – Teitl 74 (74 yn y drafft) 75 76 77 (75 yn y	Cyfeiriad at fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Deunydd ar Fwyd wedi'i Becynnu Ymlaen Llaw i'w Werthu'n Uniongyrchol (PPDS) wedi'i symud i'r Rhan 3 newydd/Cyfeirnod rhif tudalen wedi'i ddiweddarau. Paragraff wedi'i ddileu. Deunydd ar y rhai na fyddai'n bosibl angen cofrestru fel busnes bwyd wedi'i symud i baragraff 7 yn y drafft. Paragraff wedi'i ddileu er mwyn cael gwared ar y cyfeiriad at ganllawiau arfer gorau ar reoli alergenau sy'n ymwneud â'r Alban, gan nad yw'r canllawiau bellach yn berthnasol i'r Alban. Geiriad wedi'i ddiwygio i wella eglurder.	Gwelliannau Drafftio/Dileu deunydd ar PPDS a'i symud i'r Rhan 3 newydd

Adran	Rhif(au) Paragraff	Disgrifiad o'r Newid	Math o Newid
	<p>drafft) 78 (76 yn y drafft) 79 (77 yn y drafft) 82 (80 yn y drafft) 84 (82 yn y drafft) 86 (84 yn y drafft) (87 yn y drafft) Blwch Enghreifftiol ar ôl paragraff 89 (ar ôl paragraff 88 yn y drafft) 90 (89 yn y drafft)</p>	<p>“ “ “ “ “ Paragraff wedi'i ychwanegu i wella eglurder. Ail-labelu fel 'Arfer Gorau' i alinio â fformat canllawiau newydd yr ASB/geiriad wedi'i ddiwygio i wella eglurder. Mae'r paragraff ar ôl y pwyntiau bwled yn ymddangos yn y blwch 'Arfer Gorau' i alinio â fformat canllawiau newydd yr ASB.</p>	
Rhan 3 (Newydd)	Ddim yn berthnasol (92 – 106 yn y drafft)	Testun ac enghreifftiau newydd wedi'u hychwanegu ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol yn Lloegr a deddfwriaeth arfaethedig yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon.	I adlewyrchu gofynion deddfwriaeth newydd ar labelu alergenau*
Gorfodi	94 a 95 (108 yn y drafft) 97 (109 yn y drafft) 98 (110 yn y drafft)	<p>Dileu cyfeiriadau hanesyddol (cyn FIC yr UE).</p> <p>Wedi'i ddiweddarau i gyfeirio at ofynion labelu alergenau newydd. Geiriad wedi'i ddiwygio i wella eglurder.</p>	Gwelliannau Drafftio/ I adlewyrchu gofynion deddfwriaeth newydd ar labelu alergenau*

Adran	Rhif(au) Paragraff	Disgrifiad o'r Newid	Math o Newid
Rhestr o dermau	Ddim yn berthnasol	Diwygio testun sy'n ymwneud â gwerthu o bell, Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw, Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i wella eglurder ac adlewyrchu geiriad FIC yr UE yn well. Cofnod newydd ar gyfer "busnes bwyd" gan adlewyrchu'r diffiniad yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002. Diweddarau'r testun ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i adlewyrchu safle'r Llywodraeth.	Gwelliannau drafftio/l adlewyrchu gofynion deddfwriaeth newydd ar labelu alergenau*
Cyfeiriadau ac Adnoddau	Ddim yn berthnasol	Dolenni gwe wedi'u dileu a'u disodli gan ddolenni gwe i adnoddau cyfredol yr ASB.	Diweddariad (Adnoddau)
Deddfwriaeth berthnasol	Ddim yn berthnasol	Rhestr o ddeddfwriaeth berthnasol a'r dolenni gwe cysylltiedig wedi'u diweddarau.	Diweddariad (Adnoddau)
Adolygiad	Ddim yn berthnasol	Datganiad a dyddiad adolygu newydd wedi'u cynnwys, gan adlewyrchu fformat canllawiau diweddaraf yr ASB.	Fformat
Manylion cyswllt	Ddim yn berthnasol	Wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu cysylltiadau cyfredol yr ASB, yr ASB yng Nghymru ac ASB Gogledd Iwerddon.	Diweddariad (Adnoddau)

*[Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Diwygio\) \(Lloegr\) 2019 \(OS 2019 Rhif 1218\)](#) a deddfwriaeth a arfaethedig yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon.